

LLWYBR DYFFRYN AMAN

Llwybr hyfryd di-draffig, 11 cilomedr o hyd (bob ffordd), sy'n ymlwybro ar hyd y dyffryn gan ddilyn cwrs Afon Aman. Wrth ddilyn yr afon mae'r llwybr yn mynd trwy goedwigoedd, trwy nifer o fannau chwarae i blant a thrwy gae Clwb Rygbi'r Aman lle arferai Shane Williams chwarae! Mae'r siopau a'r tafarndai yn y pentrefi ar hyd y ffordd yn cynnig bwydydd a diodydd gwych. Beth am fwynhau prynhawn yn beicio yn Nyffryn Aman?




GORSAF PANTYFFYNNON

4 PONT GROG



Heol Y Mynydd



DIWEDD Clwb Rygbi SA18 1SW

SA18 2RE

PARC NATUR YNYS DAWELA

7 BRYNAMAN

Heol Wern-ddu

Heol Folland

AFON AMAN

GARNANT


Heol Pontaman

CANOLFAN Y MYNYDD DU

PONTAMAN

GLANAMAN

Phydaman



LLWYBR DYFFRYN AMAN

Dewch i grwydro hen ddyffryn glofaol yng nghysgod Bannau Brycheiniog ar lwybr beicio hyfryd. Mae'r llwybr yn ymdroelli am 7 milltir o dref Rhydaman, sy'n prysur cael ei hadfywio, i bentref llawn cymeriad Brynaman islaw'r Mynydd Du. Cadwch lygad am foncathod a barcutiaid yn hedfan oddi fry, aroglwch y garlleg a'r blodau gwyllt yn y gwanwyn, ac ymlaciwch i sŵn afon Aman wrth iddi lifo yn ymyl y llwybr. Mae'r llwybr di-draffig hwn yn boblogaidd yn y prynhawniau gyda theuluoedd, gan fod llefydd chwarae ar hyd y ffordd a lluniaeth ar y naill ben a'r llall.



1 GORSAF PANTYFFYNNON

Adeiladwyd yr orsaf restredig Gradd II hon, sy'n dyddio o 1857, yn ymyl gwaith tunplat Dinefwr, a bellach mae wedi cael ei hadfer. Mae'n werth cael golwg arni hyd yn oed os nad ydych yn cyrraedd ar un o drenau Rheilffordd Calon Cymru, sy'n stopio yma ar gais. Mae prif adeilad yr orsaf yn enghraifft brin o 'chalet Brunel', dyluniad a ddaeth i nodweddu'r peiriannydd enwog, a'r blwch signalau, sy'n dyddio o 1892 ac sydd hefyd yn un rhestredig Gradd II, yw'r unig enghraifft o'i fath sydd wedi goroesi ar y llinell. Mae rhan fer ddi-draffig o'r llwybr i Rydaman yn dechrau ychydig i'r gogledd o'r orsaf.

2 RHYDAMAN

Gydag amrywiaeth o siopau a lleoedd i fwyta, mae Rhydaman yn fan cychwyn da ar gyfer eich taith. Gwnewch yn siwr eich bod yn galw yn y Pear Tree Deli, sy'n lle cyfeillgar â thipyn o steil yn perthyn iddo, ac sy'n llawn cynnyrch lleol. Mae'r cownter deli wedi ei llytho â thorthau sourdoes gan bobydd Ffrenig o Frynman, a cheir amrywiaeth hynod o gacennau cartref ynghyd â myffins sawrus, wyau'r Alban, pastai, a roliau selsig mawr o wahanol flasau bendigedig. Mae'r coffi yn y caffi yno'n rhagorol, ac mae modd cael prydau twym a brechdanau i lenwi'r bol cyn cychwyn arni, neu beth am gael coffi a chacen ar ôl gorffen – byddwch chi'n eu haeddu!

www.thepeartreedeli.co.uk

3 PONTAMAN

Rhannwch y pafinau â cherddwyr i gyrraedd

dechrau'r llwybr di-draffig go iawn ym Mhontaman, rhyw hanner milltir i'r dwyrain o ganol y dref. Yma mae'r trac yn gwau ei ffordd rhwng y coed uwchlaw'r afon i ddechrau, gyda sŵn y dŵr i'w glywed yn atseinio'r drwy'r goedwig, cyn cyrraedd dolydd lle mae yn y pori.

4 PONT GROG

Milltir i'r dwyrain o Bontaman, mae'r llwybr yn mynd o amgylch pont grog fechan ar draws yr afon. Sbiwch i'r gogledd i gyrion y Bannau a Thair Carn Isaf, lle codwyd tair carn ar ben y bryn yn ystod yr Oes Efydd tua 3,500 o flynyddoedd yn ôl.

5 GLANAMAN

Daw'r llwybr i Lanaman, lle mae gorsaf sydd bellach yn segur ar linell Dyffryn Aman. Yr enw gwreiddiol ar yr orsaf oedd Cross Keys, ac er nad yw'n bodoli mwyach mae'r blwch signalau brics coch yma o hyd. Oedwch am eiliad i ddarllen y panel sy'n adrodd hanes y Brenin Arthur yn hela'r Twrch Trwyth dieflig a hudol, a geisiodd loches ar y Mynydd Du. Disgrifir y stori yn chwedl ganoloesol Culhwch ac Olwen, ac fe'i hadroddir ar banelau ar hyd y dyffryn ac mewn manau eraill yn ne Cymru – i ddarllen mwy ewch i:

www.aattt.org.uk

6 Y GARNANT

Mae Parc Golwg yr Aman ger yr afon ar safle hen waith tunplat ac mae carreg sylfaen y gwaith i'w weld yng nghanol y parc. Dyma ichi fan delfrydol i

gael hoe hanner ffordd. Ar draws yr afon i'r gogledd mae safle'r hen Palais de Danse, sinema a neuadd ddawns a godwyd yn 1923. Bellach mae'n llecyn picnic a maes parcio cyfleus.

7 PARC NATUR YNYS DAWELA

I'r dwyrain o'r Garnant mae'r llwybr beicio eto'n ymlwybro i'r coed, gan ddod allan wrth y cae rygbi ar gyrion Brynman. I'r gogledd o'r trac fan hyn mae Parc Natur Ynys Dawela, lle mae llwybrau'n ymblethu rhwng cynefinoedd amrywiol sy'n gartref i adar, ieir bach yr haf a rhywogaeth niferus eraill.

8 CANOLFAN Y MYNYDD DU

Ym Mrynman Uchaf mae'r ganolfan aml-bwrpas hon yn gartref i swyddfa bost, siop fechan a chaffi llachar sy'n gweini bwyd cartref o sylwedd (yn cynnwys brechwast a choffi at ddant beicwyr), brechdanau a thatws pob. Ceir hefyd wybodaeth leol i dwristiaid, arddangosfeydd treftadaeth, gwaith gan aelodau grŵp celf y ganolfan, a murlun gwych Brynman a baentiwyd gan artistiaid lleol, sy'n portredu'r pentref a'i dreftadaeth. I gael golygfeydd syfrdanol o'r Mynydd Du, ewch yn eich blaenau am hanner milltir i fyny'r A4069 tuag at gyrion y pentref a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

www.brynman.org.uk

